# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 2

RHEOLAETHU GWAITH SY'N EFFEITHIO AR ADEILADAU RHESTREDIG

*Ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig*

### 90 Gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig

(1) Rhaid i gais am gydsyniad adeilad rhestredig gael ei wneud i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad rhestredig yn ei ardal, oni bai ei fod yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru yn unol—

(a) â rheoliadau a wneir o dan adran 105 (ceisiadau gan awdurdodau cynllunio neu'r Goron),

(b) ag adran 106 (ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith brys ar dir y Goron),

(c) ag adran 305 neu 306 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) (ceisiadau gan awdurdodau tai lleol am gydsyniad i ddymchwel adeiladau mewn cysylltiad â chaffael tir ar gyfer ei glirio), neu

(d) ag unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Rhaid i gais am gydsyniad adeilad rhestredig gynnwys—

(a) digon o wybodaeth i adnabod yr adeilad rhestredig y mae'n ymwneud ag ef, gan gynnwys plan,

(b) unrhyw blaniau eraill ac unrhyw luniadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r gwaith y mae'n ymwneud ag ef, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais (a gaiff gynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio ffurflen sydd i'w chyhoeddi neu i'w darparu gan Weinidogion Cymru neu berson arall);

(b) sut y mae rhaid gwneud cais.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud cais o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau gynnwys gyda'r cais ddatganiad ynghylch—

(a) sut y bydd y gwaith yn effeithio ar gymeriad yr adeilad rhestredig fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a

(b) y naill neu'r llall o'r canlynol, neu'r ddau ohonynt (fel y'i pennir yn y rheoliadau)—

(i) yr egwyddorion dylunio sydd wedi eu cymhwyso i'r gwaith;

(ii) sut yr ymdriniwyd â materion sy'n ymwneud â mynediad i'r adeilad.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys datganiad sy'n ofynnol o dan is-adran (4);

(b) dogfennau neu ddeunyddiau eraill y mae rhaid eu cynnwys gyda chais.

(6) Ni chaiff awdurdod cynllunio ystyried cais a wneir iddo am gydsyniad adeilad rhestredig os yw'r cais yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan yr adran hon neu odani.